Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Aberporth
Rhiw y Plas
Aberporth
Cardigan
SA43 2DA

13/12/2024

Annwyl Elen Evans

**Ymweliad Interim:** Rhagfyr 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Aberporth yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'u harolygiad craidd ym mis Mawrth 2020. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i arsylwi addysgu a dysgu, edrych ar waith disgyblion a siarad â disgyblion, staff ac arweinwyr.

**Ffocws yr ymweliad**

**Codi safonau darllen disgyblion cyfnod allweddol 2**

- Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn yr argymhelliad.
- Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi sefydlu dull cyson o ddatblygu medrau darllen ar draws yr ysgol, gyda disgwyliadau clir wedi'u gosod i'r holl staff. Maent yn defnyddio'r dulliau hyn yn gyson i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd parhaus yn eu medrau darllen.
- Ar draws yr ysgol, mae staff yn derbyn cyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol er mwyn gwella medrau darllen disgyblion, er enghraifft, ynglŷn a sut i gynnal sesiynau darllen dan arweiniad. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion yr awdurdod i fireinio'u dulliau addysgu. Mae hyn, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar addysgu darllen ac ar gynnydd ym medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion.
- Ar draws yr ysgol, mae pwyslais clir ar ddatblygu diwylliant cyfoethog a boddhad y disgyblion mewn darllen amrywiaeth o destunau. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i ddathlu diwrnod y llyfr a darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddarllen gyda thrigolion y pentref yng Nghanolfan y Dyffryn. Mae

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.
Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

darpariaeth yr ysgol yn cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddarllen.

- Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o weithgareddau hunanwerthuso yn llwyddiannus i sicrhau cysondeb yn yr addysgu ar draws bob dosbarth. Er enghraifft, maent yn olrhain cynnydd darllen disgyblion yn ofalus yn erbyn ystod o feini prawf. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i gynnig ymyraethau darllen yn amserol.
- Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus. Maent yn defnyddio strategaethau priodol i ddarllen yn gywir ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r hyn maent yn ei ddarllen.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn datblygu lefel dda o ruglder wrth ddarllen, sy'n cyd-fynd yn llwyddiannus â'u cam datblygu. Mae athrawon wedi cyflwyno amrywiaeth addas o destunau i ddisgyblion. Mae hyn yn arwain at welliant yn eu dealltwriaeth a'u hymatebion wrth drafod nodweddion llyfrau. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o gynnwys broliant llyfrau. Mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o awduron Cymraeg ymhellach.

**Sicrhau bod athrawon cyfnod allweddol 2 yn darparu digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm**

- Mae arweinwyr wedi gwneud cynnydd cadarn wrth ymateb i'r argymhelliad hwn. O ganlyniad, mae medrau rhifedd ac ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella'n dda.
- Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau mathemateg buddiol gan ddarparu cyfleoedd iddynt gymhwyso eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau perthnasol, er enghraifft wrth ddatblygu eu medrau mesur a rhif wrth gynllunio cafn blodau. O ganlyniad i brofiadau fel hyn, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau'n effeithiol, yn enwedig eu medrau datrys problemau geiriol, ar draws y meysydd dysgu. Mae athrawon yn dechrau datblygu profiadau go iawn i gefnogi disgyblion i barhau i ddatblygu eu medrau rhifedd.
- Mae staff yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu o oedran cynnar yn fedrus. Wrth i'r disgyblion symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd buddiol wrth ddatblygu a chymhwyso eu medrau mewn ystod gynyddol o gyd-destunau dysgu, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr i aelodau'r Senedd i sicrhau pris teg i ffermwyr am eu cynnyrch fel rhan o'u thema 'Heb amaeth, heb faeth'.
- Mae dulliau asesu'r ysgol yn dechrau cefnogi disgyblion i adnabod yr hyn maent yn ei gyflawni'n dda a'r hyn sydd angen ei wella wrth iddynt ddatblygu eu medrau ysgrifennu ymhellach. Mae arweinwyr yn cydnabod bod angen herio'r disgyblion uwch eu gallu er mwyn eu cefnogi i gyflawni hyd orau eu gallu bob tro.
- Mae arweinwyr yn dadansoddi gwybodaeth am gyflawniad disgyblion yn briodol, er enghraifft drwy ddadansoddi canlyniadau profion personol, cynnal trafodaethau proffesiynol gyda staff ac arsylwadau dosbarth. Yn deillio o'r gwerthusiadau hyn, mae athrawon yn addasu'r ddarpariaeth yn llwyddiannus. Caiff cynnydd disgyblion unigol eu trafod yn werthfawr mewn 'cyfarfodydd cynnydd' tymhorol. Mae hyn yn golygu bod gan athrawon ddealltwriaeth dda

am gynnydd y disgyblion ar draws y meysydd dysgu, ac yn eu cefnogi'n briodol i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: [http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6672319](http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6672319)

Yn gywir



**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol